

Cynradd

Teithio meddylgar: bingo cerdded



Amcanion

I ddisgyblion chwilio am bethau o'u cwmpas sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus.

I fod yn fwy ymwybodol o'u hamgylchedd a'i werthfawrogi.

Cynllun sesiwn

Dyma gyfle i ddisgyblion archwilio'r byd o'u cwmpas a dianc o'r sgriniau am gyfnod.

P'un ai'r hyn y gallant ei weld drwy'r ffenestr, yn yr ardd, neu ar daith gerdded fydd hyn, mae eisiau iddyn nhw chwilio am bethau o bob lliw sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus.

Esboniwch y gweithgaredd, a thrafodwch sut y dylai disgyblion gofnodi'r hyn maen nhw'n ei ddarganfod. Gallent ddefnyddio pensiliau lliwio i lunio'r pethau maen nhw'n dod o hyd iddyn nhw, neu gasglu eitemau os yw'n briodol, neu dynnu lluniau.

Gallant arddangos yr hyn y maent yn ei ddarganfod mewn gwahanol ffyrdd a'i rannu gyda'i gilydd.

Estyniad

Gallai disgyblion feddwl am themâu eraill ar gyfer helpa drysor.

Addasiad ar gyfer dysgu o gartref

Gellir gwneud hyn yr un mor hawdd gartref ag y gellir mewn maes chwarae ysgol, cae neu ystafell ddosbarth.



Amser

15-30 munud (neu faint bynnag mae'n cymryd i chi fynd am dro)



Adnoddau

Pin ysgrifennu neu bensil

Papur neu gopi wedi'i argraffu o'r daflen adnoddau

Pensiliau neu binnau lliwio (dewisol)



Gweithgaredd Unigol/Grŵp

Y ddau

